Sir y Fflint
Flintshire

# Swydd-ddisgrifiad

## TEITL Y SWYDD: PRIF SWYDDOG GWASANAETHAU STRYD A CHUDLIANT

## YN ATEBOL I'R: PRIF WEITHREDWR

**PWRPAS Y SWYDD**

Darparu arweinyddiaeth unigol a chyfunol ar draws y Cyngor fel aelod o Dîm Rheoli Prif Swyddog i gyflawni (1) canlyniadau sy'n cael eu harwain gan flaenoriaethau corfforaethol (2) newid a gwelliant sefydliadol blaengar a (3) rhagori mewn perfformiad gweithredol.

Gweithio fel rhan o dîm agos ac uwch dîm cyfunol, gan ganolbwyntio ar (1) strategaeth a pherfformiad (2) llywodraethiant sefydliadol (3) datblygu sefydliadol a rheoli a (4) rheoli perthnasau, partneriaethau ac enw da allanol.

Darparu arweinyddiaeth strategol a gweithredol o bortffolio gwasanaethau stryd a chludiant.

Dirprwyo ar gyfer y Prif Weithredwr pan fo'r angen.

**PRIF GYFRIFOLDEBAU**

### Arweinyddiaeth Gorfforaethol Gyfunol

Gweithio'n agos gyda'r Prif Weithredwr, fel rhan o dîm prif swyddog sy'n rhannu lleoliad, a gwneud cyfraniad gweithredol a chadarnhaol i ddatblygiad parhaus y strategaeth gorfforaethol.

Rhannu gweledigaeth gyfunol a chyd-arwain gweithrediad y strategaeth ar flaenoriaethau lleol a rhanbarthol yn y tymor canolig a'r tymor hir.

Symud gweledigaeth a blaenoriaethau'r Cyngor ymlaen drwy arweinyddiaeth gyfunol, gadarn, cynllunio i'r dyfodol, rheoli a darparu.

Chwarae rôl gadarn, gadarnhaol a chydradd o fewn yr uwch dîm cyfunol:

- Gweithio fel tîm:
  Bod yn rhan o uwch dîm effeithiol sy'n gweithio'n agos gyda'i gilydd, sy'n fodel rôl i weledigaeth a gwerthoedd y Cyngor, ac yn cefnogi eraill drwy ymgysylltu a galluogi iddynt berfformio.

- Cynllunio Strategol:
  Gweithio ar y cyd ar gynllunio strategol, er mwyn cyflawni canlyniadau strategol a arweinir gan flaenoriaethau. Gwneud rhagolygon yn y tymor hirach a chynllunio o amgylch galw, cyflenwad ac anghenion y gymuned.

- Strategaeth Ariannol:
  Darparu adnoddau strategol ac arloesol yn effeithiol, yn ogystal â chynllunio ariannol.

- Perfformiad:
  Goruchwylio cynllunio a pherfformiad gwasanaeth ar y cyd, yn ogystal â rheoli risg a datrysiadau.

- Datblygu Sefydliadol:
  Goruchwylio trawsnewidiad y Cyngor drwy hyrwyddo dyluniad sefydliadol arloesol ac uchelgeisiol, gwelliannau i'r system, rheoli talent a modelau gwasanaeth newydd.

- Rheoli Rhaglen:
  Gweithio ar y cyd ac yn unigol i ddarparu prosiectau a rhaglenni ledled y Cyngor i gyflawni newid.

- Cydweithredu:
  Datblygu a diogelu cyfleoedd ar y cyd ac wedi'u rhannu gyda phartneriaid a budd-ddeiliaid i wella canlyniadau, perfformiad ac arbedion ariannol ar gyfer y Cyngor.

- Llywodraethu Corfforaethol:
  Darparu llywodraethu corfforaethol effeithio a chymesur, gan sicrhau bod pobl a gwasanaethau yn atebol a bod Aelodau'n cael eu cynghori'n briodol.

- Perthnasau allanol:
  Gweithio'n rhag fel tîm i symud perthnasau rhanbarthol a chenedlaethol, partneriaethau lleol, cymunedau a'r cyfryngau ymlaen, i wella enw da'r Cyngor.

- Diwygio'r Sector Cyhoeddus:
  Chwarae rôl gadarnhaol a rhagweithiol wrth gynllunio ar gyfer "glasbrint" llywodraeth leol a diwygio'r gwasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol.

*Mesuryddion perfformiad: Adborth cymunedol, Cyflawni blaenoriaethau'r Cyngor, Cyflawni cynlluniau busnes a thrawsnewid y cytunwyd arnynt. Gweithredu polisïau a chynlluniau'r Cyngor o fewn y gyllideb, Dangosyddion Perfformiad Allweddol Statudol a Chenedlaethol.*

**Cludiant a Gwasanaethau Stryd: Perfformiad Gweithredol a Pherfformiad Gwasanaethau**

Arwain a pharhau i ddatblygu strategaeth uchelgeisiol ar gyfer gwasanaethau portffolio, a gefnogwyd gan gynllunio gweithredol a chyflawniad lefelau uchel o berfformiad a rhagoriaeth.

Sicrhau bod yr ystod ganlynol o wasanaethau yn cael eu darparu mewn modd cydlynol a chydweithredol, ac yn unol â'r polisïau, safonau a'r ddeddfwriaeth y cytunwyd arnynt:-

**Lefel sirol**

- Gwasanaethau Stryd a gwasanaethau parth cyhoeddus
- Gwasanaethau Gwastraff
  - Casglu a gwaredu gwastraff gweddilliol
  - Casglu gwastraff i'w ailgylchu a'i ailddefnyddio
  - Casglu gwastraff bwyd a'i drin
- Cludiant a Fflyd
- Traffig a Diogelwch ar y Ffyrdd
- y Rhwydwaith Priffyrdd a Chludiant (gan gynnwys darpariaeth cludiant cyhoeddus a chludiant ysgolion)
- Ynni ac Arbed Dŵr
- Busnes a Strategaeth

Mae gan y portffolio bedwar maes gwasanaeth, gyda'r Rheolwr Gwasanaeth ymhob adain yn adrodd yn uniongyrchol i'r Prif Swyddog, Gwasanaethau Stryd a Chludiant. Y pedwar Rheolwr Gwasanaeth a'u meysydd cyfrifoldeb yw:

<u>Rheolwr Cludiant</u>
Mae'r Tîm Cludiant yn galluogi gwasanaethau cludiant diogel a chynaliadwy ar draws y Sir drwy integreiddiad llwyddiannus pob dull cludiant, er mwyn hwyluso twf economaidd a chynaliadwyedd ein cymunedau.

<u>Rheolwr Darparu Gwasanaeth</u>

**TEITL Y SWYDD: PRIF SWYDDOG GWASANAETHAU STRYD A CHUDLIANT**

Mae'r Tîm Cyflenwi Gwasanaethau yn rheoli gweithlu gweithredol, sy'n darparu gwasanaethau rheng flaen, gan gynnwys casgliadau gwastraff ac ailgylchu, cynnal a chadw priffyrdd, cynnal a chadw'r gerddi, glanhau strydoedd, goleuadau stryd, cynnal a chadw yn ystod y gaeaf, a chynnal a chadw'r Rhwydwaith Cefnffyrdd.

Rheolwr Rhwydwaith Priffyrdd

Mae'r Tîm Rhwydwaith Priffyrdd yn gyfrifol am ansawdd a chyflwr strydoedd a mannau agored ledled y sir, ynghyd â chyfrifoldebau arbenigol ar gyfer rheoli gofod strydoedd, strwythurau'r priffyrdd, goleuadau stryd, cynnal a chadw yn ystod y gaeaf, a rheoli a chynnal a chadw'r fflyd.

Rheolwr Gwasanaethau Rheoleiddio

Mae'r tîm Gwasanaethau Rheoleiddio yn sicrhau bod gwasanaeth yn cydymffurfio gyda phob un o'i ddyletswyddau statudol, ac yn cynnwys datblygiad strategaeth wastraff y Cyngor, rheoli Prosiect Trin Gwastraff Gweddillol Gogledd Cymru, Parcio Sifil a Gwasanaethau Gorfodi Amgylcheddol, Hyfforddiant a Chydymffurfiad.

## Lefel Ranbarthol ac isranbarthol

- Datblygiad strategaeth ranbarthol e.e. yr isadeiledd cludiant a'i wasanaethau
- Dyluniad rhaglenni a phrosiectau cyfalaf rhanbarthol ar y cyd e.e. Metro Gogledd Ddwyrain Cymru, adnoddau Ynni Hydrogen
- Arweinyddiaeth ar y cyd ar drefniadau cydweithio rhanbarthol newydd/estynnwyd e.e. gwasanaethau gwastraff ar y cyd a chaffael

Arwain datblygiad parhaus strategaeth rheoli gwastraff y Cyngor, gan weithredu fel arweinydd gweithredol yn narpariaeth rheoli gwastraff, ailgylchu a gwaredu, gan weithio'n agos gyda gwrthrannau rhanbarthol, fel rhan o drefniadau cydweithio/dan gontract ffurfiol ac anffurfiol.

Arwain darpariaeth effeithiol ac effeithlon traffig a diogelwch ar y ffyrdd, priffyrdd a chludiant, gan sicrhau bod gofynion statudol yn cael eu bodloni a bod gwasanaethau yn cael eu darparu yn unol â pholisïau a blaenoriaethau cyffredinol y Cyngor.

Rheoli datblygiad parhaus gwasanaethau cludiant a logisteg, gan sicrhau bod defnydd effeithlon ac effeithiol o'r fflyd ac adnoddau eraill i gyflawni perfformiad.

Dylunio a goruchwylio prif raglenni a phrosiectau cyfalaf, yn rhanbarthol ac yn lleol e.e. cyfres prosiectau Metro Gogledd Cymru.

Ystyried cyfleoedd ar gyfer modelau darpariaeth arall a chyfleoedd partneriaethau ar gyfer meysydd gwasanaeth gweithredol a phroffesiynol, gan gynnal lefelau perfformiad a gofynion rheolaethol a statudol, mewn meysydd gan gynnwys ynni ac arbed dŵr.

Darparu gwasanaethau stryd a gwasanaethau parth cyhoeddus proffesiynol ac effeithiol, a fyddai'n cyflawni lefelau uchel o berfformiad ac ansawdd yn unol â disgwyliadau preswylwyr a'r gymuned.

Goruchwylio cynllunio busnes cadarn sy'n cydymffurfio, rheoli risg a rheolaeth fewnol.

Rheolaeth ariannol effeithiol o gyllideb cyllidebau portffolio (£31m cyllideb refeniw).

Rheoli gweithlu effeithiol a chydweithio gydag undebau llafur cydnabyddedig (sy'n cynnwys gweithlu o 500 a rhagor)

Datblygu a gweithredu datrysiadau arloesol a chreadigol fel bod gwasanaethau yn bodloni anghenion y Cyngor i newid a gwella.

Hwyluso a hyrwyddo newid a thrawsnewid ar draws y portffolio, yn ogystal â gwneud cysylltiadau ledled y Cyngor; cefnogi rheolwyr wrth ddarparu modelau gwasanaeth effeithlon a newydd.

*Mesuryddion Perfformiad: Dangosydd Perfformiad Allweddol o Gynllun y Cyngor; Dangosydd Perfformiad Allweddol o'r Cynlluniau Gwasanaeth; adborth gan fudd-ddeiliad a'r gymuned; canlyniadau arolygiad ac archwiliadau; Dangosyddion Cenedlaethol Perthnasol.*

**Arweinyddiaeth a Datblygu Talent**

Arwain, galluogi a datblygu rheolwyr a staff i sicrhau bod gweithlu cymwys, talentog a brwdfrydig yn bodloni amcanion y Cyngor.

Arwain drwy esiampl, gweithredu fel model rôl lleol mewn perthynas â gwerthoedd ac ymddygiadau arweinyddiaeth y Cyngor i lywio newid ymddygiadol a diwylliannol yn eraill.

*Mesur perfformiad: Adborth gan reolwyr a staff, cynnydd yn erbyn arweinyddiaeth a datblygiad tîm (ymddygiadau, dulliau, adborth 360); amcanion a mesuryddion y Cynllun Pobl.*

**Arweinyddiaeth a llywodraethu effeithiol ar y cyd**

Sefydlu a chynnal perthnasau gwaith cadarn gydag aelodau etholedig wrth lywodraethu'r Cyngor, gan ddarparu lefel uchel o gyngor a chymorth i gynnal a gwella perfformiad y Cyngor.

Creu perthnasau gwleidyddol a phroffesiynol effeithiol wrth lywodraethu'r Cyngor, gan ganolbwyntio ar flaenoriaethau strategol, gydag eglurder ar atebolrwydd a gwneud penderfyniadau'n effeithiol.

*Mesuryddion Perfformiad: Adborth Aelodau; Effeithiolrwydd perthnasau werth symud amcanion y Cyngor yn eu blaen.*

**MANYLION AM YR UNIGOLYN**

**Cymwysterau**

- Addysg i lefel gradd gyda thystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol a phersonol
- Cymhwyster ôl-radd mewn maes perthnasol yn ddymunol (cymhwyster ôl-radd/ cymhwyster peirianneg proffesiynol/siarter).

**Gwybodaeth/Profiad**

- Profiad o fod yn uwch reolwr mewn awdurdod lleol, gan weithio ar draws ystod amrywiol o wasanaethau technegol a gweithredol
- Profiad o weithio'n gorfforaethol ar flaenoriaethau ar draws sefydliad
- Profiad strategol a gweithredol sylweddol wrth reoli a darparu gwasanaethau a pherfformiad
- Profiad o reoli adnoddau sylweddol i gyflawni canlyniadau
- Profiad o reoli trawsnewid gwasanaeth ar draws pobl, cyllid, systemau, prosesau, perthnasau ac adnoddau
- Profiad o arwain staff a gwasanaethau mewn cyfnod o newid drwy fod yn hyblyg, creadigol, ymatebol a pherfformio'n uchel.
- Profiad o ddatblygu modelau darpariaeth gwasanaethau gwahanol, gweithio i ddull comisiynu
- Gwybodaeth gynhwysfawr o ddyluniad sefydliadol, newid a thrawsnewid i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd

- Dealltwriaeth o waith y sector cyhoeddus, gan gynnwys blaenoriaethau a pholisïau'r llywodraeth
- Dealltwriaeth sylweddol o'r cyd-destun economaidd a gwleidyddol ehangach
- Dealltwriaeth sylweddol o'r ddeddfwriaeth bresennol, gofynion rheoliadol, ac ymarfer ehangach mewn perthynas â phob maes o arbenigedd

**Sgiliau**

- Gallu gweithio'n effeithio fel rhan o uwch dîm agos a chyfunol - cydbwyso gwasanaethau a blaenoriaethau corfforaethol
- Y gallu i adnabod cryfderau cyfunol, profiad ac atebolrwydd y tîm i ganolbwyntio ar ddatrys problemau ac atebolrwydd ar y cyd
- Gallu trosglwyddo strategaethau sefydliadol/corfforaethol i gynlluniau gweithredol effeithiol
- Gallu a pharodrwydd i ddatblygu a chyflawni cydweithio gyda phartneriaid a darparwyr eraill wrth gefnogi Sir y Fflint a blaenoriaethau rhanbarthol
- Llwyddo i ddatblygu perthnasau gwaith yn fewnol ac yn allanol, er mwyn darparu ystod eang o ganlyniadau'n llwyddiannus yn erbyn blaenoriaethau'r Cyngor (gallu dylanwadu ar eraill)
- Gallu arwain prosiectau cymhleth, ar draws y Cyngor, i gefnogi gwelliant corfforaethol neu newid i wasanaethau
- Craffter a sensitifrwydd gwleidyddol, gyda'r gallu i ddylanwadu ar eraill
- Craffter busnes ac ymwybyddiaeth fasnachol, gyda dealltwriaeth ariannol gadarn
- Gallu sylweddol i ddadansoddi a datrys gwybodaeth gymhleth, sefyllfaoedd a materion, a chreu datrysiadau cyfunol ac unigol effeithiol, gan weithio'n bendant
- Gallu i siarad a darllen Cymraeg i lefel 1 o leiaf (neu cytundeb i gyflawni hyn o fewn 12 mis)

**YMDDYGIADAU ARWEINYDDIAETH**

Mae'r ymddygiadau canlynol wedi cael eu nodi i fod yn hanfodol i lwyddiant Prif Swyddog.

- Canolbwyntio ar y Gymuned
  Cynnal ffocws ar ganlyniadau sy'n cael eu cyflawni ar gyfer cymunedau lleol. Mae hyn yn seiliedig ar synnwyr cryf o bwrpas moesol, ond yn mynd tu hwnt i 'eisiau gwneud y peth iawn' dros gymunedau i ymgysylltu go iawn gyda nhw. Bydd Prif Swyddogion yn gweithredu fel modelau rôl, ac yn grymuso'r cwsmer/y gymuned, a bydd yn mewnosod diwylliant sy'n canolbwyntio ar y cwsmer yn systematig i'w portffolio.

- Meddwl yn strategol ac yn creu eglurder:
  Y gallu i feddwl yn systematig a sylwi ar gysylltiadau. Mae hyn o gymorth i allu'r Prif Swyddog i symleiddio cymhlethdod, creu eglurder a ffocws, a meddwl yn greadigol. Bydd Prif Swyddogion yn creu ffyrdd newydd o weithio ar gyfer y dyfodol, gan lunio mewnwelediadau o fannau eraill, a chreu dulliau newydd o weithio.

- Gyrru gwelliant parhaus:
  Bod â dyfalbarhad ac awydd i nodi a chyflawni gwelliannau yn barhaus, heb dynnu sylw oddi ar flaenoriaethau eraill a'u darpariaeth barhaus. Mae hyn yn cynnwys dealltwriaeth o ysgogwyr ansawdd a gwerth, a'r hyder i herio beth ddigwyddodd yn y gorffennol a chymryd gofalus. Bydd Prif Swyddogion yn herio'r arferion a lefelau perfformiad cyfredol, ac yn parhau i ganolbwyntio ar y tymor hirach.

- Gweithio ar y cyd:
  Bod yn agored i safbwyntiau eraill, gweithio mewn partneriaeth yn effeithiol neu alluogi eraill i wneud hynny i ddarparu'r canlyniadau gorau i gwsmeriaid a chymunedau. Mae'n adnabod bod angen gwneud penderfyniadau i ddarparu'r gwasanaethau gorau, yn hytrach na chanolbwyntio ar 'beth fyddai'r

manteision i'm gwasanaeth i?'. Bydd Prif Swyddogion yn adeiladu aliniad rhwng partneriaid ac yn creu ymrwymiad cyfunol i ddatrysiadau o werth uchel.

- Arwain ac ymgysylltu:
  Rhoi cyfeiriad, cefnogaeth ac eglurder i eraill er mwyn eu galluogi i gyflawni'n effeithiol. Mae'n cynnwys creu'r hinsawdd cywir i bobl gyflawni eu gwaith gorau, gan sicrhau diwylliant o barch at y naill a'r llall, cefnogaeth, gonestrwydd, addysg a herio'n adeiladol. Bydd Prif Swyddogion yn adeiladu synnwyr o bwrpas wedi'i rannu, sy'n rymus.

- Yn hyderus ac yn ddewr:
  Bod a ffordd optimistaidd o feddwl a hyder i gyflawni, herio a dyfalbarhau, hyd yn oed pan mae cyfnodau anodd neu wrth wynebu gwrthwynebiad. Bydd Prif Swyddogion yn mynd i'r afael â heriau'n rhagweithiol, ac yn estyn allan i archwilio meysydd nas archwiliwyd o'r blaen.

Ar ben hynny, mae'r Cyngor wedi nodi yn ogystal â'r ymddygiadau hyn, mae disgwyliad y bydd Prif Swyddogion yn gallu:

- Cefnogi arloesedd parhaus (gydag ymrwymiad i ddatblygu a galluogi eraill)
- Sganio'r amgylchedd (gwneud cynlluniau, gosod cyfeiriad ac achub y blaen ar faterion)
- Rheoli perfformiad ar gyfer canlyniadau (darparu disgwyliadau, safonau ac amcanion clir)
- Creu cyfleoedd (mentro ac achub y blaen ar newidiadau yn y dyfodol)
- Dylanwadu (ymgysylltu gydag eraill, cyfathrebu gydag effaith)
- Cynnig craffter gwleidyddol (deall y cyd-destun gwleidyddol yn lleol ac yn genedlaethol)
- Dangos ymwybyddiaeth o'r hunan a gwydnwch (rheoli effaith personol)